



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David




CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Tystysgrif Polisi a Chynllunio Iaith

Hanfodion Cynllunio Iaith


Sesiwn 8: Y Sefyllfa yn Llydaw
Dr Aneirin Karadog

The background of the image is the flag of Wales, featuring three horizontal stripes of red, white, and green. Overlaid on the flag are several stylized, dark green or black floral motifs, which appear to be stylized carnations or similar flowers with five petals and a central stem with leaves. The text is white and positioned in the lower-left quadrant of the image.

Llydaweg, chwaer iaith y Gymraeg.
Brezhoneg, *c'hoar Yezh ar*
C'hembraeg

Y Llydaweg, iaith heb gynllun na pholisi?

“Y mae Llydaw mewn perigl (sic), ac ni fedd nerth Cymru i’w wynebu. Y mae anffyddiaeth andwyol Ffrainc yn prysur dreiddio i’w chyrrau eithaf. Y mae’r offeiriaid anwybodus hunanol am eu bywyd yn ceisio cadw’r bobl dan hud ofergoeledd; y mae’r bobl hynny, dan ddylanwad ysgolion a phapurau newyddion Ffrainc, yn dyheu am ryddid. Ond nid i’r rhyddid sydd yng nghyfraith yr Arglwydd y maent yn prysuro, ond i ben-rhyddid anfoesol digrefydd Ffrainc. Wyneb Cymro sydd gan y Llydawr, - eto heb ei feddylgarwch; canu Cymru ydyw canu Llydaw, - eto heb dân gwladgarwch a dyfnder argyhoeddiad crefydd. Ond os na chyfrynga Rhagluniaeth yn fuan, ni bydd y Llydawr ond Ffrancwr – heb awen, heb athrylith, heb Dduw yn y byd...” – O.M. Edwards, *Tro yn Llydaw*, 1890.



Y Goeden Deuluol Geltaidd

Indo-Ewropëeg

Celteg

Brythoneg | Goedeleg

Teulu Brythoneg: Cymraeg | Llydaweg | Cernyweg

Teulu Goedeleg: Gwyddeleg

O'r Wyddeleg: Manaweg | Gaeleg yr Aban

A allwch chi adnabod yr iaith

Me a vynn kewsel an yeth

Cymraeg

Gura mie ayd

Llydaweg

Rydw i'n hoff o ddysgu

Manaweg

Komzh a ran abaoue mard on bihan

Gwyddeleg

Go raibh maith agat

Gaeleg yr Alban

Madainn mhath, ciamar a tha thu

Cernyweg

A allwch chi adnabod yr iaith

Me a vynn kewsel an yeth

Cernyweg

Gura mie ayd

Manaweg

Rydw i'n hoff o ddysgu

Cymraeg

Komzh a ran abaoue ma bugaleaj

Llydaweg

Go raibh maith agat

Gwyddeleg

Madainn mhath, ciamar a tha thu

Gaeleg yr Alban

Chwaer-ieithoedd Brythonaidd

Dyma olwg sydyn ar y tebygrwydd rhwng Llydaweg, Cernyweg a Chymraeg:

- <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/44255322>
- Yr un Anthem: Hen Wlad Fy Nhadau, Bro Gozh ma Zadoù, Bro goth an Tassow.
- Tebygrwydd ieithyddol, ond tair stori ieithyddol wahanol iawn...

Cyd-destun ieithyddol Llydaw



Yn Hanesyddol, dwy brif iaith:
Llydaweg a Gallo.

Llydaweg yn yr ochr orllewinol a
Gallo yn y dwyrain

Yn raddol, death y Ffrangeg yn
brif iaith y wlad fel ag y mae
heddiw.

Ond tan y 1950 roedd ardaloedd
fel Guipavas ger dinas Brest,
cymharol i ardal Sgeti yn
Abertawe, yn rhywle y byddech
yn canfod fod 90% o'r boblogaeth
yn medru Llydaweg.

Stori o ddirywiad catastroffig felly
a chymharol sydyn yw stori'r
Llydaweg a'r Gallo.

Stori o Ddirywiad

- Ystyriwch syniad (anecdotaidd) y prifardd Emyr Lewis taw achubiaeth y Gymraeg oedd y Chwyldro Diwydiannol a'r modd y denodd y cyfnod hwnnw boblogaeth i Gymru a chadw pobol Cymru yn y wlad ac mewn gwaith. O gymharu â'r gwledydd celtaidd eraill, ar wahân i'r diwydiant tûn yng Nghernyw, amaethyddiaeth a physgota oedd yn cynnal pobol.
- Mae'n bosib fod yr uchod wedi cynnig achubiaeth i'r Gymraeg yn ystod y 19eg Ganrif o leiaf.
- **Tasg – Nodwch resymau dros ddirywiad y Gymraeg yn ystod yr ugeinfed Ganrif. Pa ffactorau a gyfrannodd at hyn?**

Stori o Ddirywiad

Hyd at 80au'r 20fed ganrif, credir bod oddeutu miliwn o siaradwyr Llydaweg

Mae un factor allweddol wedi profi'n gatalydd i ddirywiad y Llydaweg, sef yr Ail Rhyfel Byd.

Ffactorau eraill wedi hynny: moderneiddio, cryfhau'r wladwriaeth ffrengig, canoli Grym, tybiaeth ymysg y boblogaeth bod angen medru Ffrangeg i symud ymlaen yn y byd – o ganlyniad – diffyg troslgwyddo'r iaith. Diffyg statws swyddogol i'r iaith a methiant gwleidyddol i gael mesur o ymreolaeth i Lydaw a hawliau i'r iaith.

- **Trafodaeth:** Sut mae'r Gymraeg yn cymharu, o ran hawliau ar y wyneb, yn ail hanner yr Ugeinfed Ganrif?

Felly, faint sy'n ei medru hi heddiw?

Mae'n anos casglu data yn Llydaw, sydd mor fanwl â'r cyfrifiad, gan nad oes yna gyfrifiad fel ym Mhrydain. Swyddfa ystageau ar ran Rannvro Breizh (Conseil Régional de Bretagne) felly sy'n casglu'r data. Daw'r ffigyrau diweddaraf (2018) o ymgyrch dros y ffôn a holodd 8,000 o bobol.

Mae pobol fel Fañch Broudig wedi arwain sawl ymchwiliad i niferoedd siaradwyr drwy ddefnyddio dulliau tebyg.

Dewn ni nôl i wrando ar ei sylwadau ar Radio Bleu Breizh Izel am ymchwil 2018

<https://www.francebleu.fr/infos/faits-divers-justice/le-nombre-de-locuteurs-bretonnants-est-stable-mais-1538674396>

Ymchwil Sosio- ieithyddol 2018 - Canfyddiadau

Holwyd sampl o 8,000 o bobol ar draws Llydaw (y 5 département Hanesyddol - Penn-ar-bed, Morbihan, Il-ha-Gwilen, Aodoù an Arvor Liger-Atlantel)

tua 213,000 o siaradwyr Llydaweg yn y 5 département (5.5% o'r boblogaeth)

Cyfartaledd Oedran: 70 oed (Codiad o 7 mlynedd ers ymchwil 2007)

3.5% o'r boblogaeth yn deall Llydaweg ond ddim yn ei siarad

31% o'r boblogaeth yn medru rhai geiriau, termau neu ddywediadau

40% o'r Boblogaeth â rhyw adnabyddiaeth o'r Llydaweg

EGWYL



Strategaeth a Pholisi

O ran cyfrifoldeb dros yr iaith, mae hynny yn y pen draw gyda Llywodraeth Ffrainc. Mae gan y corff rhanbarthol democrataidd ar gyfer Llydaw, *Rannvro Breizh (Conseil Régional de Bretagne)* hefyd gyfrifoldeb ond dim grym l ddeddfu.

Mae'r Llydaweg felly mewn sefyllfa barhaus o orfod brwydro am friwsion (cymharol os ydym yn edrych ar Gymru), o ariannu addysg trwy gyfrwng y Llydaweg i roi lle dyledus l'r iaith yn y cyfryngau, er enghraifft.

Deddf Paul Molac, 2021 – Llygedyn o obaith...


Pwy felly sydd â chyfrifoldeb dros yr Iaith?

- Mae gan lywodraeth Ffrainc gyfrifoldeb dros ieithoedd lleiafrifol yn y wlad, ond ydy e'n un o'i blaenoriaethau?
- Mae rhan gan yr Undeb Ewropeaidd i'w chwarae, ond heb gydnabyddiaeth swyddogol i ieithoedd lleifrifol Ffrainc, mae hynny hefyd yn anodd.
- Awst 4, 1994, pasiwyd deddf yn nodi lle canolog yr iaith Ffrangeg yng nghyfansoddiad Ffrainc. Dyma'r tro cyntaf i'r datganiad canlynol gael ei wneud felly:
 - “Le Français et la langue de la république” – wele eiriad Cymal 1 o'r ddeddf
 - “Langue de la République en vertu de la Constitution, la langue française est un élément fondamental de la personnalité et du patrimoine de la France.
 - Elle est la langue de l'enseignement, du travail, des échanges et des services publics.
 - Elle est le lien privilégié des Etats constituant la communauté de la francophonie”



'La Loi Molac' – Deddf Paul Molac (Aelod Seneddol) Pleidlais wedi'r Ail-ddarlleniad, 8/4/2021

Canlyniad y Bleidlais yn L'Assemblée Nationale



‘La Loi Molac’ – Deddf Paul Molac (Aelod Seneddol, Morbihan)

- Pwrpas y ddeddf: Rhoi statws, amddiffyniad a chefnogaeth i ieithoedd rhanbarthol Ffrainc mewn tri maes: Treftadaeth, Addysg a’r Sector Cyhoeddus



Par contre...

LE CONSEIL CONSTITUTIONNEL DÉCIDE :

Article 1^{er}. - Les articles 4 et 9 de la loi relative à la protection patrimoniale des langues régionales et à leur promotion sont contraires à la Constitution.

Trafodaeth: ydy
strategaeth statudol tu
ôl i iaith yn sicrhau
ffyniant iaith

Cymharer Llydaw ac Iwerddon

Iwerddon: Hunan-lywodraeth ond iaith yn
marw yn gymunedol, er bod dros filiwn a
hanner yn medru'r iaith

Llydaw: Dibynnu ar bolisiau iaith
Llywodraeth Ffrainc. Cyfansoddiad Ffrainc
yn milwrio yn erbyn ieithoedd lleiafrifol.

Deddf 1994 - Ffrangeg yw iaith y
wladwriaeth.

Rhan-ddeiliaid sydd dros hybu Llydaweg

Gellir rhannu'r ymdrech i gefnogi/adfer
y Llydaweg l'r meysydd canlynol:

Addysg Gynradd, Uwchradd a Phrifysgol


Cyfryngau

Dysgu Llydaweg i Oedolion

Digwyddiadau Diwylliannol

Addysg Lydaweg

- Diwan – Mudiad a system drochi yn cynnig addysg Lydaweg o oedran meithrin hyd at 18 mlwydd oed
- Ysgolion y Wladwriaeth ac ysgolion yr Eglwys Babyddol – mae rhai o'r rhain yn cynnig rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Llydaweg





Y Cyfryngau a'r Llydaweg

- France 3 Bretagne – darparu llai na 2 awr yr wythnos o Lydaweg (Sianel y Wladwriaeth gyda gorsafoedd 'Rhanbarthol')
- Brezhoweb – Gwefan sy'n cynhyrchu a chynnig rhaglenni Llydaweg
- Breizh VOD – gwasanaeth tanysgrifio sy'n tynnu ffilmiau a rhaglenni Llydaweg ynghyd i wylwyr gael eu gwyllo ar alw
- Radio Llydaweg – Gorsafoedd o fewn rhanbarthau Llydaw – Arvorig FM, Radio Kerne, Radio bro Gwened, Radio Kreiz Breizh – modd gwrando ar FM neu yn rhyngwladol dryw ap 'Radio Breizh'. Cynnig llawer o gerddoriaeth Lydaweg a Ffrangeg a rhaglenni trwy gyfrwng y Llydaweg, rhennir rhain ar draws y gorsafoedd weithiau
- Radio Bleu Breizh-Izel - Gorsaf Fasnachol – penawdau ac eitemau newyddion yn y bore yn Llydaweg a 2 awr o Lydaweg bob nos o Lun i Ddydd gwener

Dysgu Llydaweg i Oedolion



Y Datblygiad Diweddaraf

Brezhoneg war Google Translate



<https://newyddion.s4c.cymru/article/22194>

“Mae braidd yn wallus o hyd er y gobaith yw y bydd yn gwella gydag amser,” meddai wrth *Newyddion S4C*.

“Mae yna lawer sydd yn dod allan yn iawn ond mae yna broblemau gramadegol a diffyg geirfa.


“Mae’n ddefnyddiol fel sylfaen ond yna mae angen i rywun sydd â dealltwriaeth o’r iaith i fynd drwyddo a chywiro pethau.”

- Dr Rhisiart Hincks

<https://www.youtube.com/watch?v=tIMvtlINSgk>

“A minority language has got to get itself up electronically in all the varieties that are available to it.”

- Yr Athro David Crystal



EGWYL



Cyfweliad: Ronan
Hirrien, Cynhyrchydd
Teledu a Chyn-
gadeirydd '*Stumdi*'
(Canolfan Dysgu
Llydaweg)

Fe wrandaŵn ar gyfweliad gyda siaradwr Llydaweg
ac un o gefnogwyr diwyd yr iaith, Ronan Hirrien.


Bydd modd defnyddio dyfyniadau ganddo at
ddefnydd eich ymchwil

Wedi'r cyfweliad, cawn gyfle i drafod rhai pwyntiau
sy'n codi a'u cymharu gyda'r sefyllfa yng Nghymru.

Prif gwestiwn trafod:

“O ystyried statws a sefyllfa'r Gymraeg, sut ydych
chi'n gweld sefyllfa'r Llydaweg?”

Cyfweliad:
Ronan Hirrien,
Cynhyrchydd
Teledu a Chyn-
gadeirydd
'Stumdi'
(Canolfan Dysgu
Llydaweg)



Lenn Pelloc'h / Darllen Pellach

- *Byw Iaith – Taith i Fyd y Llydaweg*, Aneirin Karadog (Gwasg Carreg Gwalch, 2019)
- *Tro yn Llydaw* – O.M.Edwards (Hughes a'i fab, Ail-argraffiad, 1921)
- <https://journals.openedition.org/glottopol/475>, Herve le Bihan, «La langue bretonne : une visibilité toute en retenue », *Glottopol* [En ligne], 34 | 2020, mis en ligne le 01 juillet 2020, (Testun Ffrangeg)
- <https://www.bretagne.bzh/br/actualites/enquete-socio-linguistique-qui-parle-les-langues-de-bretagne-aujourd'hui/> - Canlyniadau Ymchwil nifer Siaradwyr Llydaweg a Gallo 2018 (Testun Ffrangeg)
- <https://www.legifrance.gouv.fr/jorf/id/JORFTEXT000043524722> - Manylion Deddf Molac i amddiffyn a hybu ieithoedd rhanbarthol Ffrainc. (Testun Ffrangeg)
- <https://www.conseil-constitutionnel.fr/decision/2021/2021818DC.htm> - Dyfarniad y 'Conseil Constitutionnel' (testun Ffrangeg)
- <https://www.ouest-france.fr/education/enseignement/langues-regionales-la-proposition-de-loi-molac-definitivement-adoptee-9ae0f46c-9875-11eb-ba1d-f4b880206b36> - Erthygl ddeddf Molac (Testun Ffrangeg)
- <http://edition.cnn.com/2010/WORLD/europe/12/11/brittany.language/index.html> - Erthygl CNN (Testun Saesneg)
- Denis Costaouec. 'Skol Diwan in Paris: a step away from regionalism in the teaching of Breton.' *Soci-olinguistic Studies*, London : Equinox, 2013, 7 (1/2), pp.167-190. (Testun Saesneg - Copi PDF ar gael ar ofyn)